
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd Hyd Yma

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mawrth 2021



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 6

Negeseuon allweddol 6

## Prif ganfyddiadau 9

Pa mor dda y mae amryw asiantaethau'n cydweithio i gyflawni'r rhaglen POD yng Nghymru? 10

Faint mae POD yn ei gostio? 12

Pa mor dda y mae profi ar gyfer COVID-19 yn gweithio yng Nghymru? 13

Pa ffactorau sy'n effeithio ar brofi? 18

Pa mor dda yw olrhain cysylltiadau? 20

Pa ffactorau sy'n effeithio ar olrhain cysylltiadau? 23

Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi pobl y mae angen iddynt hunanynysu? 26

## Edrych ymlaen: heriau a chyfleoedd allweddol 29

Bod â gwybodaeth well i wella effeithlonrwydd a gwerthuso effaith POD 30

Sicrhau bod gweithgareddau profi'n addas ar gyfer y diben ac yn ateb y galw cynyddol 30

Creu gweithlu medrus a gwydn i gyflawni DOP 31

Dylanwadu ar y cyhoedd i ddilyn canllawiau a gofynion diogelu iechyd y cyhoedd 32

Cymhwyso'r gwersi o'r rhaglen POD i raglenni eraill a ffyrdd o weithio yn y dyfodol 33

## Atodiadau

1 Llwybr dadansoddi samplau a phrofion ar gyfer Cymru (ym mis Rhagfyr 2020) 35

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae Profi, Olrhain, Diogelu (POD) yn rhan allweddol bwysig o ddull Llywodraeth Cymru o gyfyngu ar ymlediad COVID-19 a lleihau'r angen am gyfyngiadau ar fywydau pobl. Datblygwyd y rhaglen POD yn gyflym gan ddechrau o'r dechrau trwy'r trefniadau partneriaeth a sefydlwyd pan drawodd y pandemig gyntaf ym mis Mawrth 2020 ac mae'n rhan o'r ymateb ehangach i'r feirws, a nodir yng **Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru**.

2 Mae strategaeth **Profi, Olrhain, Diogelu** Llywodraeth Cymru yn nodi elfennau allweddol y rhaglen sy'n cynnwys:

- adnabod a phrofi pobl a all fod â COVID-19;
- olrhain pobl a fu mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19; a
- rhoi cyngor ac arweiniad i ddiogelu'r cyhoedd a chynorthwyo pobl i hunanynysu lle y bo angen.

3 Mae **Arddangosyn 1** yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y mae POD yn gweithio yng Nghymru.

## Arddangosyn 1 – sut y mae POD yn gweithio yng Nghymru

**Mae Llywodraeth Cymru yn pennu’r blaenoriaethau ac yn darparu cyllid a goruchwyliaeth ar gyfer POD gyda chyngor gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**Profi**

- Mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleusterau profi lle caiff swabiau eu cymryd a’u hanfon wedyn i gael eu dadansoddi.
- Mae labordai’r GIG yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn dadansoddi rhai o’r profion. Caiff rhai eu dadansoddi gan labordai preifat a adwaenir ar y cyd fel Labordai Goleudy’r DU. Caiff y Labordai Goleudy eu rheoli gan bartneriaeth a arweinir gan Lywodraeth y DU[1].

**Olrhain**

- Lle y bo’n berthnasol[2], caiff manylion pobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 eu hanfon at dimau olrhain cysylltiadau lleol yn yr ardal y maent yn byw ynddi. Caiff timau eu cydlynu’n rhanbarthol gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol.
- Mae timau olrhain cysylltiadau’n siarad gyda phobl sydd wedi cael prawf positif i adnabod unrhyw un y gallant fod wedi’i heintio.
- Mae timau olrhain cysylltiadau’n ceisio cyrraedd unrhyw un a ddaeth i gysylltiad â’r sawl a gafodd brawf positif. Maent yn cynghori pobl sydd â symptomau i gael prawf ac i hunanynysu. Maent yn anfon negseuon testun rheolaidd at gysylltiadau heb symptomau i weld a ydynt wedi datblygu symptomau.

**Diogelu**

- Mae timau olrhain cysylltiadau’n gofyn i bobl a oes angen cymorth arnynt i hunanynysu ac yn trosglwyddo eu manylion i dimau awdurdodau lleol.
- Mae timau awdurdodau lleol a’r trydydd sector yn cefnogi pobl y mae angen cymorth arnynt i hunanynysu.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

1 Mae’r bartneriaeth yn cynnwys y Catapwlt Darganfod Meddyginiaethau (sefydliad a ariennir gan Lywodraeth y DU), Bywydfan y DU, Prifysgol Glasgow, Prifysgol Caergrawnt, a chwmnïau preifat: AstraZeneca, GSK, a PerkinElmer.

2 Ceir pobl nad yw eu manylion yn mynd at dimau olrhain cysylltiadau, er enghraifft pobl mewn cartrefi gofal, carchardai, neu ysbytai.

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

4 Mae’r adroddiad hwn yn nodi prif ganfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o’r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i heriau darparu gwasanaethau POD yng Nghymru. Trosolwg lefel-uchel ydyw o’r hyn sydd wedi bod, ac sy’n dal i fod, yn rhaglen sy’n esblygu’n gyflym. Daw’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein sylwebaeth o adolygiadau o ddogfennau, cyfweliadau gyda staff mewn byrddau iechyd, awdurdodau lleol, yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020, a dadansoddiad o fetrigau allweddol sy’n dangos pa mor dda y mae’r rhaglen POD wedi bod yn perfformio. Yn ogystal â gwneud sylwadau am gyflawni’r rhaglen POD hyd at a chan gynnwys ym mis Rhagfyr 2020, mae’r adroddiad yn nodi rhai heriau a chyfleoedd a fydd yn dod i’r amlwg fel rhan o’r frwydr barhaus i reoli COVID-19.

## Negeseuon allweddol

5 Wrth gyflawni’r rhaglen POD gwelwyd gwahanol rannau o’r sector cyhoeddus a’r trydydd sector yng Nghymru’n cydweithio’n dda, mewn partneriaethau cryf ac effeithiol, i fynd ati’n gyflym i greu rhaglen o weithgareddau sy’n gwneud cyfraniad pwysig at reoli COVID-19 yng Nghymru.

6 Mae gan gyfluniad y system POD yng Nghymru nifer o gryfderau, gan gyfuno goruchwyliaeth ac arbenigedd technegol cenedlaethol â pherchnogaeth leol a rhanbarthol ar y rhaglen, a’r gallu i ddefnyddio gwybodaeth a chudd-wybodaeth leol i lunio ymatebion.

7 Mae trefniadau ar gyfer profi ac olrhain cysylltiadau wedi esblygu wrth i’r pandemig ddatblygu. Ond mae cynnal y perfformiad gofynnol yn y meysydd hyn wedi profi’n her yn wyneb galw cynyddol.

8 Mae POD yn rhan hollbwysig o ddull Llywodraeth Cymru ond nid dyma’r unig ffordd y mae wedi bod yn ceisio atal y feirws rhag ymledu. Er gwaethaf gweithgarwch profi ac olrhain cynyddol, mae’r feirws wedi parhau i ymledu. Yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o’r DU ac yn rhyngwladol, bu angen ategu gweithgarwch profi ac olrhain â chyfyngiadau symud lleol a chenedlaethol mwyfwy caeth mewn ymgais i leihau cyfraddau trosglwyddo.

9 Dim ond datrysiadau dros dro i reoli trosglwyddiad a ddarparwyd gan y cyfyngiadau symud ac ni waeth pa gynnydd sy'n cael ei wneud gyda brechlynnau, bydd y rhaglen POD yn dal i fod yn offeryn allweddol ym mrwydr Cymru gyda'r feirws am gryn dipyn o amser i ddod.

10 Fe gynyddodd nifer y profion yn sylweddol mewn ymateb i nifer cynyddol yr achosion o COVID-19, ac mae canlyniadau wedi bod yn cael eu darparu'n gyflym ar y cyfan. Mae'r gweithlu olrhain wedi ehangu'n gyflym. Ond pan fo'r galw wedi cynyddu ledled rhanbarthau ar yr un pryd, bu capasiti olrhain cysylltiadau annigonol i ateb y galw cynyddol.

11 Yn bwysicaf oll, mae gan y cyhoedd rôl enfawr o ran atal y feirws rhag ymledu trwy ddilyn canllawiau a hunanynysu pan fo angen. Mae gwybodaeth dda erbyn hyn i ddangos ehangder ac ystod y gwasanaethau a'r cymorth a fabwysiadwyd ledled Cymru yn ystod y pandemig. Ond mae'n dal yn anodd gwybod pa mor dda y mae elfen 'ddiogelu' y rhaglen POD wedi bod yn gweithio i gynorthwyo pobl i hunanynysu. Bydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i 'syrffed ar y cyfyngiadau symud' ddechrau gyda'i heriau cysylltiedig ar gyfer llesiant emosiynol, corfforol ac economaidd.

12 Caiff y negeseuon allweddol hyn eu harchwilio ymhellach yn yr adrannau canlynol.

“Mae Cymru wedi datblygu gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu gan ddechrau o’r dechrau i raddau helaeth a hynny ar raddfa a chyflymder na welwyd mo’u bath o’r blaen.

Mae wedi bod yn arbennig o galonogol gweld pa mor dda y mae partneriaid yn y sector cyhoeddus wedi bod yn cydweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i gyfuno arbenigedd arbenigol â gwybodaeth leol, a gallu i ddysgu’n gyflym ac addasu’r rhaglen wrth i ni fynd drwy’r pandemig. Mae’n bwysig bod y gwersi cadarnhaol yn cael eu dysgu a’u rhoi ar waith yn fwy eang.

Bu adegau pan fo’r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu wedi cael ei ymestyn i’r eithaf, ond mae wedi ymateb yn dda i’r heriau hyn. Mae angen i’r rhaglen barhau i esblygu, ochr yn ochr â chyflwyno brechlynnau, i sicrhau ei bod yn dal i ganolbwyntio ar gyrraedd achosion positif a’u cysylltiadau, ac yn cynorthwyo pobl i hunanynysu i gadw’r feirws dan reolaeth.”



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

# Prif ganfyddiadau

01

# Pa mor dda y mae amryw asiantaethau'n cydweithio i gyflawni'r rhaglen POD yng Nghymru?

1.1 Mae'r amryw sefydliadau sy'n rhan o gyflawni'r rhaglen POD yng Nghymru wedi gweithio'n eithriadol o galed, mewn partneriaethau cryf ac effeithiol, ar gyflymder uchel ac ar y cyd maent wedi sefydlu ystod o weithgareddau sydd wedi bod yn gwneud cyfraniadau pwysig i reoli COVID-19 yng Nghymru.


1.2 Mae maint yr her wedi bod yn sylweddol. Ac eithrio trefniadau lleol a roddwyd ar waith yn flaenorol i ymateb i achosion iechyd y cyhoedd, nid oedd unrhyw drefniadau POD yn bodoli cyn y pandemig. Mae'r arddangosyn canlynol yn rhoi arwydd o raddfa'r rhaglen POD yn ystod yr ail frig mewn achosion COVID-19.

**Arddangosyn 2 – cymharu gweithgarwch POD yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 2 Ionawr**




40 o safleoedd profi yn eu lle, a hwythau'n cynnal **96,000** o brofion yr wythnos

Cyfwerth â nifer cyfartalog y cleifion allanol a welir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bob deufis



**2,400** o staff wedi'u penodi, eu hyfforddi, a'u rhoi ar waith i olrhain cysylltiadau

Cyfwerth ag ychydig o dan hanner cyfanswm y gweithlu a gyflogir gan Lywodraeth Cymru



8 tîm rhanbarthol yn eu lle, a hwythau'n olrhain, yn rhoi cyngor ac yn gwneud gwaith dilynol mewn perthynas ag **14,000** achosion (cyfeirio) positif a **31,200** o gysylltiadau agos bob wythnos

Yn cyfateb i nifer cyfartalog y galwadau 999 a wneir i Wasanaeth Ambiwlans Cymru bob mis

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru

1.3 Er nad oedd rolau a chyfrifoldebau o fewn y system yn cael eu deall yn llawn gan bawb yn adegau cynnar y pandemig, daethant yn fwy eglur wrth i'r rhaglen esblygu ac ymateb i heriau digwyddiadau, achosion, a chyfraddau trosglwyddo cynyddol.

1.4 Mae gan gyfluniad y system POD yng Nghymru nifer o gryfderau, gan gyfuno goruchwyliaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, â'r arbenigedd technegol a'r profiad sydd i'w cael yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn byrddau iechyd, awdurdodau lleol, yn y trydydd sector ac yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Yn hollbwysig, mae'r model POD yng Nghymru wedi rhoi perchnogaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar y broses, ac mae hefyd wedi rhoi'r gallu iddynt ddefnyddio gwybodaeth a chudd-wybodaeth leol i lunio ymatebion i'r pandemig.


1.5 Mae'r rhaglen wedi dangos ei bod yn gallu addasu ac esblygu'n gyflym, gan ddysgu gwersi o reoli achosion cynnar a cheisio cyfuno trefniadau sy'n benodol ar gyfer Cymru a threfniadau ar gyfer y DU gyfan mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod ac yn parhau i fod yn her ac fe wnaeth swyddogion y siaradom ni gyda hwy ei disgrifio fel ceisio 'dylunio, adeiladu a hedfan awyren i gyd ar yr un pryd'. Mae amrywiolion newydd y feirws yn her sylweddol hefyd ac yn cynyddu'r pwysau ar y rhaglen POD i ddal i fod yn ystwyth.

1.6 Mae'r ffaith na fu gan Gymru reolaeth lwyr ar bob elfen o'r rhaglen POD wedi achosi rhai heriau gweithredol o ran mynediad at brofion. Mae Cymru'n dibynnu'n gryf ar Labordai Goleudy'r DU (Labordai Goleudy) ac ym mis Medi, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU yn unochrog ei bod yn capio capasiti profi beunyddiol mewn Labordai Goleudy mewn ymateb i'r galw uchel am brofion. Er bod Llywodraeth y DU wedi rhyddhau rhagor o brofion yn gyflym ar gyfer Cymru, fe wnaeth y bennod amlygu rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r system brofi hybrid. Caiff y mater hwn ei archwilio ymhellach ym **mharagraff 1.21**.

## Faint mae POD yn ei gostio?

1.7 Disgwylir i elfen Llywodraeth Cymru o'r rhaglen POD gostio dros £120 miliwn yn ystod 2020-21, y mae bron i dri chwarter ohono'n wariant ar brofi (**Arddangosyn 3**). Mae'r costau gwirioneddol i'r trethdalwr yn sylweddol uwch am nad yw Cymru'n talu'n uniongyrchol am ei chyfran o safleoedd profi na chyfleusterau labordy a gomisiynir gan Lywodraeth y DU (**gweler yr adran ar brofi**). Mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru hefyd wedi adleoli staff i gyflawni POD ac nid yw hynny wedi'i gynnwys yn y ffigyrau gwariant ar gyfer Cymru gyfan. Nid yw'r union wariant ar gyfer elfen 'ddiogelu' y rhaglen wedi'i chynnwys ychwaith gan bod costau cysylltiedig yn rhan o gostau darparu gwasanaethau ehangach ar gyfer awdurdodau lleol a mudiadau'r trydydd sector.

**Arddangosyn 3 – gwariant POD Cymru gyfan ar gyfer 2020-21 (£ miliwn) yn seiliedig ar wariant gwirioneddol hyd at fis 10 a rhagolwg tan ddiwedd y flwyddyn. Nid yw'r siart hon yn cynnwys yr holl wariant ar POD**




Ffynhonnell: Ffurflenni monitro misol POD[1] – yn seiliedig ar yr hyn a gyflwynwyd ym 'Mis 10'

1 Mae byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn cyflwyno'r ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru i gael eu hadolygu.

## Pa mor dda y mae profi ar gyfer COVID-19 yn gweithio yng Nghymru?

1.8 Ar ddechrau’r pandemig, roedd lefel y capasiti labordai a oedd ar gael ledled Cymru’n is na’r hyn a oedd yn ofynnol i ateb y galw disgwyliedig o’i rhaglen POD. Mae’r rhwydwaith o Labordai Goleudy ledled y DU wedi darparu capasiti ychwanegol sylweddol ers mis Mai na fyddai sector cyhoeddus Cymru wedi gallu ei sicrhau ar ei ben ei hun. Cyhoeddwyd cynlluniau i gynyddu’r capasiti labordai a oedd yn cael ei ddarparu gan sector cyhoeddus Cymru ym mis Awst a hynny’n cael ei gefnogi gan gyllid ychwanegol o £32 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

1.9 O’i gymharu â gwledydd eraill, bu gan y DU a Chymru rai o’r cyfraddau uchaf yn y byd o ran profi’r boblogaeth[2]. Fe helpodd y buddsoddiad ychwanegol i gefnogi 6 ‘labordy poeth’ ychwanegol i’w gwneud yn bosibl dadansoddi profion yn gyflym, ac i gefnogi darpariaeth 24 awr gan labordai’r GIG yng Nghymru. Ar gyfer hyn roedd yn ofynnol recriwtio staff ychwanegol i weithio yn y labordai.


1.10 Mae capasiti samplu sylweddol wedi cael ei roi ar waith ers mis Mai hefyd. Mae hwn yn parhau i ehangu, gan gynnwys safleoedd profi lleol ac unedau profi symudol y gellir eu symud i ardaloedd lle mae eu hangen. Mae nifer o gyfleusterau samplu’n cael eu rhedeg gan gontractwyr preifat fel rhan o raglen brofi’r DU. Ond mae byrddau iechyd, ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yn gynyddol wedi bod yn darparu capasiti samplu ychwanegol.

1.11 Mae’r llwybr ar gyfer samplu a dadansoddi profion wedi amrywio gan ddibynnu pwy sy’n cael y prawf ac mae’n cynnwys lefel o gymhlethdod (**Atodiad 1**). Mae’r Labordai Goleudy’n darparu canlyniadau positif a negatif sylfaenol ond maent wedi gallu ymateb i alw uchel a dadansoddi niferoedd mawr. Mae labordai’r GIG yng Nghymru’n darparu profion sy’n darparu dadansoddiad mwy manwl, ond nid ydynt wedi gallu ymateb i alw uchel. Mae’r trefniadau hyn wedi bod yn newid a byddant yn parhau i newid pan fo gwasanaethau swabio a gwasanaethau labordy newydd yn cael eu cyflwyno, a phrofion newydd yn cael eu datblygu a’u cyflwyno.

1.12 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos twf sylweddol yn lefel y profi a wnaed rhwng canol mis Mawrth a mis Chwefror 2021. Mae hefyd yn dangos bod cyfran sylweddol o’r galw am brofion ledled Cymru wedi cael ei hateb gan y Labordai Goleudy.

2 Ar adeg ein gwaith maes fe edrychon ni ar y 30 o wledydd uchaf â’r mwyaf o achosion. Ers dechrau’r pandemig, y DU oedd â’r gyfradd profi ail uchaf a Chymru oedd â’r gyfradd profi chweched uchaf (antigen a gwrthgyrff).

**Arddangosyn 4 – cyfanswm profion wedi'u prosesu ar gyfer trigolion yng Nghymru wedi'u rhannu yn ôl darpariaeth GIG Cymru a'r Labordai Goleudy hyd at 25 Chwefror 2021**





Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

1.13 Mae amseroldeb yn hollbwysig i atal ymlediad y feirws. Mae cael canlyniad prawf positif yn gyflym yn galluogi timau olrhain cysylltiadau i gyrraedd cysylltiadau'r unigolyn hwnnw'n gynharach a dweud wrthynt am hunanynysu i atal ymlediad pellach. Mae cael canlyniad prawf negatif yn gyflym hefyd yn lleihau'r effaith ar unigolion ac ar yr economi ehangach, er enghraifft, trwy eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith.

1.14 Mae **Arddangosyn 4** yn dynodi, erbyn diwedd mis Medi, bod labordai'n prosesu dros 10,000 o brofion y dydd ar gyfer trigolion yng Nghymru. Ar yr adeg honno, roedd cyfraddau COVID-19 ar gynnydd ar draws nifer o ardaloedd sirol, roedd codiadau sylweddol yn y galw am brofion o ganlyniad i ailagor ysgolion, a gwelwyd dechrau afiechydon tymhorol â symptomau tebyg. Fe gyfrannodd effaith y ffactorau uchod at ostyngiad yng nghyfran y profion y cafwyd eu canlyniadau o fewn y safon 'aur', sef un diwrnod calendr, er bod canlyniadau o fewn tri diwrnod calendr wedi parhau i raddau helaeth. Mae'r capasiti profi ychwanegol ledled Cymru wedi helpu i wella'r perfformiad dros y misoedd diwethaf (**Arddangosyn 5**).

**Arddangosyn 5 – canran y profion yr hysbyswyd yn eu cylch o fewn un diwrnod calendr ac o fewn tri diwrnod calendr (Labordai GIG Cymru a Labordai Goleudy) hyd at 1 Mawrth 2021**




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

1.15 Fodd bynnag, mae'r amser rhwng rhoi sampl i bobl a hysbysu ynghylch y canlyniadau gan y labordy (amseroedd prosesu canlyniadau) wedi amrywio'n weddol sylweddol gan ddibynnu ar leoliad y prawf a ble y mae wedi cael ei ddadansoddi. Canfuom y canlynol:

- Mae amseroedd prosesu canlyniadau ar gyfer profion mewn ysbytai, ac yn fwy diweddar profion cymunedol a thorfol[3], wedi perfformio'n dda ar y cyfan gyda chanlyniadau dros 80% o'r profion mewn ysbytai, a thros 70% o'r profion cymunedol wedi'u prosesu o fewn un diwrnod calendr.

3 Mae hyn yn cynnwys canolfannau profi drwy ffenestr y car a chanolfannau profi symudol rhanbarthol, a chanolfannau profi galw-i-mewn lleol a gefnogir gan labordai GIG Cymru, yn ogystal â safleoedd profi cymunedol ar gyfer cleifion allanol a gweithwyr allweddol symptomatig.

- Mae'r cyfraddau prosesu canlyniadau gan labordai GIG Cymru ar gyfer gweithwyr allweddol asymptomatig (gan gynnwys staff cartrefi gofal) a phreswylwyr cartrefi gofal o fewn un diwrnod calendr wedi bod mor isel â 25%. Ond yn fwy diweddar mae wedi cynyddu i 50%, er ei bod yn bwysig nodi mai tri diwrnod calendr yw'r amseroedd prosesu canlyniadau disgwyliedig ar gyfer y cohort hwn. Er bod perfformiad wedi gostwng yn ystod y cyfnod ym mis Medi, mae bron pob canlyniad wedi cael ei brosesu o fewn tri diwrnod calendr.
- Fe berfformiodd amseroedd prosesu canlyniadau Labordai Goleudy ar gyfer profion cymunedol[4] tan fis Medi. Ond wedyn fe ddirywiodd amseroldeb pan gynyddodd y galw (fel a nodir ym **mharagraff 1.14**), gyda chyfartaledd o 30% yn unig o ganlyniadau profion yn cael eu prosesu o fewn un diwrnod calendr ar ddiwedd mis Hydref. Mae perfformiad wedi gwella ers hynny ac roedd yn rhedeg ar 98%.
- Mae cyfradd prosesu canlyniadau Labordai Goleudy ar gyfer citiau profi, naill ai trwy'r porthol sefydliadau ar gyfer cartrefi gofal, neu ar gyfer profi gartref, o fewn un diwrnod calendr, wedi bod yn isel, sef tua 30% ac mae wedi bod yn gyson felly ers mis Awst er y gwelwyd gwelliant bach ar gyfer canlyniadau profion trwy'r porthol yn ystod mis Tachwedd. Sylwer mai tri diwrnod calendr yw'r amser prosesu canlyniadau disgwyliedig ar gyfer y cohort hwn hefyd. Er mai tua 50% oedd perfformiad yn ystod cyfnod yr haf, mae bron pob canlyniad yn cael ei brosesu o fewn tri diwrnod calendr erbyn hyn.

1.16 Wrth ystyried y pwyntiau uchod, mae'n werth cydnabod bod yr heriau logistaidd sy'n gysylltiedig â chludo swabiau o rai lleoliadau samplu sydd wedi'u hynysu'n ddaearyddol i labordai yng Nghymru ac yn Lloegr yn gallu cyfrannu at amseroedd prosesu canlyniadau hwy. Mae amseroldeb citiau profi gartref hefyd yn ddibynnol ar bostio swabiau yn ôl i'r labordai mewn modd amserol. Mae niferoedd y profion a gwblheir yn y DU ac yng Nghymru hefyd yn uchel o'i gymharu â gwledydd eraill â niferoedd tebyg o achosion. Fodd bynnag, mae angen goresgyn yr heriau hyn gan bod llwyddiant y rhaglen POD yn dra dibynnol ar amseroldeb canlyniadau profion. O ganlyniad, agorwyd Labordy Goleudy yng Nghasnewydd ym mis Hydref, ac agorodd canolfan gydgrynhoi yng Nghaerdydd ym mis Ionawr i'w gwneud yn bosibl cludo swabiau'n gyflymach.

1.17 Mae amlder profi mewn ysbytai wedi gwella ers dechrau'r pandemig ond mae angen ei gryfhau ymhellach. Mae achosion o COVID-19 mewn ysbytai yn amlwg wedi bod yn risg a allai fod wedi cael ei lleihau trwy gyfundrefnau profi effeithiol, cyn ac ar ôl derbyn cleifion, yn ogystal â phrofi mwy mynych yn ystod arhosiad claf yn yr ysbyty.

4 Mae hyn yn cynnwys canolfannau profi drwy ffenestr y car a chanolfannau profi symudol rhanbarthol, a chanolfannau profi galw-i-mewn lleol a gefnogir gan Labordai Goleudy.

1.18 Dengys ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru, o'i gymharu â thon gyntaf y pandemig, fod ysbytai wedi bod yn profi nifer cymesur uwch o gleifion wrth eu derbyn[5], gyda'r gyfran yn cynyddu o 24% yn y don gyntaf i 54% ym mis Hydref, ond mae cryn dipyn o le i wella o hyd. Mae data ar **wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn darparu rhagor o fanylion ac yn dynodi bod lefelau profi wedi amrywio'n sylweddol ledled Cymru, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn profi oddeutu 24% o gleifion ym mis Hydref o'i gymharu â 64% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fe leihaodd yr amrywiad rhwng byrddau iechyd yn ystod mis Tachwedd, gyda'r holl fyrddau iechyd yn fwy diweddar yn profi rhwng 50 a 60% o'r holl gleifion a dderbyniwyd, ac eithrio Caerdydd a'r Fro sydd wedi bod ar gyfradd is o oddeutu 40%. Fodd bynnag, unwaith y maent wedi cael eu profi wrth eu derbyn, ni fu unrhyw brofi rheolaidd yn ystod arhosiad claf yn yr ysbyty oni bai bod cleifion wedi datblygu symptomau. Yr eithriad yn hyn o beth yw cleifion a ryddhawyd i gartrefi gofal, gan bod gofyniad i gleifion gael dau ganlyniad prawf negatif cyn cael eu rhyddhau.

1.19 Mae lefelau risg wedi amrywio mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru oherwydd gwahaniaethau yng nghyffredinrwydd y clefyd yn y cymunedau. Fodd bynnag, mae wedi bod yn amlwg, unwaith y ceir achos mewn ysbyty, bod ymlediad COVID-19 o ganlyniad i drosglwyddo yn yr ysbyty wedi gosod baich sylweddol ar gapasiti'r ysbyty ac wedi arwain at ganlyniadau gwael iawn i gleifion.

1.20 Mae nifer y bobl sydd wedi dal COVID-19 yn yr ysbyty wedi bod yn gymharol isel ledled Cymru (oddeutu 8% o'r holl achosion yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 8 Chwefror) ond bu nifer cynyddol o achosion dros y misoedd diwethaf. Mae'n bwysig bod cyfundrefnau profi mewn ysbytai wedi'u dylunio i ymateb i'r her hon a lleihau'r risg o heintiau coronafeirws a gafwyd yn yr ysbyty.

5 Nid yw ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys achosion positif a gadarnhawyd a chleifion dewisol a gaiff eu profi cyn eu derbyn.

## Pa ffactorau sy'n effeithio ar brofi?

1.21 Mae trefniadau'r Labordai Goleudy wedi creu rhai heriau i Gymru o ystyried mai Llywodraeth y DU sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch defnyddio capasiti'r labordai. Hyd at fis Hydref, nid oedd rhanbarthau yng Nghymru'n gallu gweld y capasiti mewn Labordai Goleudy a oedd ar gael iddynt yn eu priod ardaloedd. Yn ystod yr amser hwnnw, fe wnaeth galw cynyddol mewn rhannau eraill o'r DU yn ogystal â phenderfyniadau gan Lywodraeth y DU effeithio ar argaeledd darpariaeth profi ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- y penderfyniad i gapio nifer y profion a oedd ar gael yn ystod mis Medi i reoli'r galw trwy'r Labordai Goleudy, a arweiniodd at ostyngiad yn nifer y slotiau a oedd ar gael ac at danddefnyddio canolfannau profi a oedd yn golygu nad oedd pawb yr oedd angen prawf arnynt yn gallu cael un.
- y penderfyniad gan y Labordai Goleudy i ddal yn ôl ar ddadansoddi swabiau o'r rhaglen reolaidd i brofi pobl asymptomatig mewn cartrefi gofal gan olygu nad oedd y swabiau hynny'n ddilys i'w dadansoddi mwyach.
- sefydlu porthol Llywodraeth y DU ar gyfer archebu profion a oedd yn cyfeirio trigolion at y safle profi agosaf yn ddaearyddol oedd â chapasiti ar gael. Canlyniad hyn oedd bod trigolion o Loegr yn teithio i mewn i Gymru ar gyfer profion, weithiau i mewn i ardaloedd a oedd dan gyfyngiadau symud lleol, gan leihau nifer y profion a oedd ar gael i drigolion Cymru. Fe achosodd hefyd i drigolion yng Nghymru gael cynnig profion mewn rhannau eraill o'r DU.

1.22 Bellach mae gan bob rhanbarth fynediad at y capasiti mewn Labordai Goleudy sydd ar gael iddynt yn ddyddiol, ac am yr wythnos sydd i ddod i'w gwneud yn bosibl priodoli capasiti i'r ardaloedd cywir. Mae cyfyngiadau o ran milltiroedd wedi cael eu gosod bellach ar brofion a archebir trwy borthol Llywodraeth y DU hefyd i gyfyngu i'r eithaf ar lif ar draws gwledydd, yn ogystal ag amlygu cyfyngiadau lleol i atal teithio i mewn i ardaloedd sydd dan gyfyngiadau symud. Lle cafwyd achosion mewn cymunedau, mae rhanbarthau wedi gallu cymryd peth rheolaeth ar y trefniadau archebu i neilltuo capasiti samplu a gaiff ei redeg yn breifat i gymunedau lleol lle y bo'n briodol, er bod hyn wedi bod yn ddibynnol ar fodolaeth systemau archebu eraill gan fyrddau iechyd.

1.23 Mae data rheoli perfformiad gwasanaethau ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar yr amser rhwng cymryd sampl a hysbysu ynghylch y canlyniad. Mae gwybodaeth am y capasiti profi ar gael hefyd, ac felly hefyd i ba raddau y defnyddiwyd y capasiti. Mae'r wybodaeth weithredol hon yn ddefnyddiol i reoli set gymhleth o wasanaethau a ddarperir gan unedau safleoedd profi a labordai gwasgaredig. Fodd bynnag, ni fu unrhyw wybodaeth am nifer y bobl sy'n ceisio cael prawf ond sydd wedi methu â chael un. Pe bai hyn ar gael, byddai'n rhoi darlun o'r galw sydd heb gael ei ateb.

1.24 Yn yr un modd, ni adroddir ar unrhyw wybodaeth am yr amser a gymer rhwng yr adeg y mae pobl yn nodi'r symptomau a'r adeg pan ydynt yn cael prawf. Byddai hyn yn bwysig i ganfod oedi cyn cael mynediad at brofion, yn enwedig ar adegau pan fo'r galw'n uchel, yn ogystal â deall ymddygiadau'r boblogaeth ac o bosibl rhwystrau 'meddal' sy'n arwain at oedi cyn bod pobl yn mynd am brofion. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rhywun yn dangos un o symptomau'r clefyd ond yn peidio â mynd am brawf nes bod ei symptomau'n gwaethygu. Caiff yr wybodaeth hon ei chasglu fel rhan o'r broses olrhain cysylltiadau ond ni fuwyd yn adrodd arni.

1.25 Ers yn gynnar ym mis Rhagfyr mae Llywodraeth Cymru, gyda'r partneriaid rhanbarthol, wedi bod yn defnyddio profi cyflym. Mae hyn yn cynnwys y Ddyfais Llif Unffordd, sy'n rhoi canlyniadau o fewn 30-40 munud. Defnyddiwyd hon yn y cynllun peilot diweddar ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon Isaf, i ddeall y gyfradd heintio. Mae profi cyflym bellach yn dwyn rhai manteision sylweddol, er enghraifft, profi ymwelwyr mewn cartrefi gofal, cleifion mewn adrannau achosion brys a gweithwyr allweddol i'w gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau cyflym a gweithredu'n cyflym. Mae hefyd yn dwyn manteision trwy leihau'r amser sy'n mynd heibio cyn bod cysylltiadau'n cael eu holrhain ac yn cael cyfarwyddyd i hunanynysu, gan bod y canlyniadau cyflym yn galluogi'r achosion positif i hysbysu eu cysylltiadau ar unwaith.

1.26 Fodd bynnag, mae'r profion cyflym wedi dwyn rhai heriau yn eu sgîl, gan nad ydynt mor gywir â'r profion swabiau a ddadansoddir trwy'r labordai. Tan yn ddiweddar, roedd pobl a oedd yn cael canlyniad positif mewn prawf llif unffordd yn cael eu cynghori i gael prawf swab ychwanegol i gadarnhau'r prawf positif ac er mwyn i'w manylion gael eu hychwanegu at y system olrhain cysylltiadau wedyn. Roedd potensial i hyn greu galw ychwanegol ar y system brofi pan oedd poblogaethau asymptomatig yn cael eu profi. Fodd bynnag, mae lefel y 'canlyniadau positif anghywir' hyd yma wedi bod yn isel iawn ac fe wnaed y penderfyniad ers hynny i gofnodi canlyniad y prawf cyflym yn uniongyrchol ar y system olrhain cysylltiadau i'w gwneud yn bosibl cynnal gweithgarwch olrhain. Mae risg o hyd, serch hynny, bod rhai pobl y mae'r feirws arnynt yn cael canlyniad 'negatif anghywir' a'u bod wedyn yn heintio rhagor o bobl yn anfwriadol. Dylid nodi bod y risg o ganlyniadau 'negatif anghywir' yn berthnasol i brofion a ddadansoddir mewn labordai hefyd yn ogystal â phrofion llif unffordd.

## Pa mor dda yw olrhain cysylltiadau?

1.27 Cydnabyddir yn rhyngwladol bod olrhain cysylltiadau’n fecanwaith sydd wedi hen ennill ei blwyf ar gyfer rheoli ymlediad clefyd heintus. Mae’n golygu cysylltu â phobl sydd wedi cael prawf positif a rhoi cyngor iddynt, darganfod pwy fu eu cysylltiadau agos, a chyrraedd y cysylltiadau agos hynny i’w cynghori beth mae angen iddynt ei wneud. Mae olrheinwyr cysylltiadau’n ceisio meithrin ymddiriedaeth i ganfod â phwy y mae pobl wedi bod mewn cysylltiad, yn enwedig lle maent o bosibl yn gyndyn o gyfaddef eu bod wedi torri’r rheolau. Mae gan olrheinwyr hefyd rôl allweddol o ran hysbysu pobl ynghylch pwysigrwydd hunanynysu, a thynnu sylw gwasanaethau ehangach yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector lle gall fod angen cymorth ychwanegol.

1.28 Er bod rhai trefniadau ar raddfa fach ar gyfer rheoli iechyd y cyhoedd ac olrhain achosion yn eu lle cyn y pandemig, mae cyflymder cyflwyno gwasanaethau olrhain newydd, yn ogystal â’u graddfa, wedi bod yn sylweddol. Mae hyn wedi cynnwys:


- datblygu prosesau, canllawiau a sgriptiau Cymru gyfan;
- caffael, datblygu a chyflwyno system TG o fewn cyfnod o chwe wythnos; a
- mynd ati’n lleol i recriwtio a hyfforddi gweithlu a oedd, erbyn mis Rhagfyr 2020, yn cynnwys 2,400.

1.29 Ni welwyd trefniadau olrhain cysylltiadau ar y raddfa hon yng Nghymru o’r blaen. Galluogwyd hyn gan drefniadau cryf ac effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth o fewn ac ar draws awdurdodau lleol a rhanbarthau byrddau iechyd.

1.30 Beth bynnag fo graddfa’r gwasanaeth olrhain a gyflwynwyd, mae’r her a achoswyd gan y pandemig wedi bod yn anferth. Mae gwasanaethau olrhain cysylltiadau yng Nghymru wedi perfformio’n dda ar y cyfan ond mae amseroldeb gweithgarwch olrhain cysylltiadau wedi dirywio ar adegau pan fu galw uchel, pan fo gwasanaethau wedi gorfod ymateb i gyfraddau heintio cynyddol yn ystod yr hydref a’r gaeaf. Mae **Arddangosyn 6** yn dangos y twf wythnosol sylweddol yn niferoedd yr achosion cymwys[6] a’u cysylltiadau yr oedd angen i’r gwasanaeth eu holrhain.

6 Ystyr achos cyfeirio (positif) cymwys yw un lle mae cyswllt yn ofynnol. Gall fod achlysuron lle nad yw’r achos yn gymwys, er enghraifft mae’n glaf mewnol mewn ysbyty (ac felly mae’r holl gysylltiadau’n hysbys ac yn cael gwybod trwy brosesau mewnol), neu gall fod yn ail brawf neu’n brawf dyblyg.


**Arddangosyn 6 – nifer yr achosion cymwys dros Gymru gyfan yr oedd angen cysylltu â hwy hyd at 21 Chwefror 2021**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.31 Ar ddechrau mis Medi roedd timau olrhain yn cyrraedd y rhan fwyaf o achosion 'cyfeirio' positif o fewn 24 awr. Caiff yr amser a gymer i gyrraedd achosion cyfeirio ei fesur o'r adeg pan gaiff eu manylion eu lanlwytho i'r system olrhain ddigidol i'r adeg y mae olrheinwyr yn llwyddo i gysylltu. Ar gyfer cysylltiadau agos, mae'r cloc yn dechrau pan fo cyswllt achos yn cael ei enwi gan achos positif, a hefyd o'r pwynt pan atgyfeiriwyd yr achos cyfeirio cysylltiedig at y system olrhain cysylltiadau. Mae'r cloc yn stopio pan lwyddir i gysylltu. Er bod achosion cyfeirio'n gwybod eu bod wedi cael prawf positif ac y dylent hunanynysu, efallai y bydd y feirws ar eu cysylltiadau agos a hwythau heb fod yn ymwybodol o hynny. Felly, po hwyaf a gymer i gyrraedd cysylltiadau, po fwyaf tebygol ydynt o ledaenu'r feirws heb yn wybod iddynt. Dengys Arddangosyn 7 sut y gall amseroldeb gweithgarwch olrhain ddirywio pan fo'r galw ar dimau olrhain cysylltiadau'n cynyddu. O ran y sefyllfa ar 19 Rhagfyr, roedd 24% o'r holl achosion cyfeirio cymwys yn cael eu cyrraedd o fewn 24 awr, o'i gymharu â 93% ar 20 Chwefror. Hefyd, ar 19 Rhagfyr, dim ond 23% o'r holl achosion cyswllt cymwys oedd yn cael eu cyrraedd o fewn 48 awr i hysbysu'r timau olrhain ynghylch yr achos cyfeirio, o'i gymharu â 75% ar 20 Chwefror.

**Arddangosyn 7 – amseroldeb olrhain cysylltiadau dros Gymru gyfan (o fewn 24 a 48 awr) hyd at 21 Chwefror 2021**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.32 Er bod y system POD wedi bod yn cysylltu â chyfran uchel o achosion cyfeirio positif a’u cysylltiadau agos, nid yw cyfran fach o bobl wedi cael eu cyrraedd o gwbl. Mae nifer o resymau dros hyn, sy’n cynnwys manylion cyswllt anghywir neu gyndynrwydd cysylltiadau i ymateb i’r alwad. O ran y sefyllfa ar 20 Chwefror, roedd 625 o achosion cyfeirio (0.4%) a 21,482 o gysylltiadau agos (5%) heb gael eu cyrraedd o gwbl. Mae’n bwysig nodi mai dim ond pobl sy’n mynd trwy’r system POD fydd wedi cael eu holrhain; ni fydd aelodau’r cyhoedd sydd wedi rhoi gwybod am symptomau trwy ddulliau eraill, megis **ap symptomau ZOE** neu sydd wedi cael canlyniad positif trwy wneud prawf preifat wedi cael eu holrhain.

## Pa ffactorau sy'n effeithio ar olrhain cysylltiadau?

1.33 Mae'r capasiti o fewn timau olrhain wedi bod yn un o benderfynyddion allweddol eu gallu i gyrraedd achosion positif a'u cysylltiadau agos. Ar ddechrau'r rhaglen POD ym mis Mehefin, fe drefnodd Llywodraeth Cymru fod £45 miliwn ar gael i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol sefydlu timau olrhain cysylltiadau ledled Cymru. Datblygwyd cynlluniau i reoli brigau a chafnau yn y galw am olrhain cysylltiadau gyda gweithlu hyblyg a oedd yn cynnwys staff a adleoliwyd o wasanaethau eraill a oedd wedi cael eu hatal oherwydd y pandemig.

1.34 Dros yr haf, fe ddychwelodd rhai aelodau o staff at eu prif swydd pan ddechreuodd gwasanaethau weithredu eto, ac fe ddechreuodd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol recriwtio staff newydd i hybu eu capasiti olrhain. Ym mis Tachwedd, fe ddarparodd Llywodraeth Cymru £15.7 miliwn yn ychwanegol i ddyblu'r gweithlu olrhain yng Nghymru o 1,800 i 3,100. Erbyn mis Rhagfyr 2020, roedd 2,400 o bobl[7] yn gweithio mewn timau olrhain.

1.35 Fe wnaeth recriwtio staff newydd, gan gynnwys staff dwyieithog, i dimau olrhain lleol ar yr un pryd ag yr oedd staff a adleoliwyd yn dychwelyd at eu swydd arferol arwain at fwy o fynd a dod na'r disgwyl i rai timau ac fe greodd rhai bylchau mewn sgiliau a phrofiad olrhain. Gall staff newydd gymryd yn hwy i broses achosion olrhain. Rydym hefyd yn ymwybodol bod cyflwyno staff newydd mewn rhai rhanbarthau wedi creu problemau megis gwallau wrth roi data i mewn gan staff dibrofiad. Roedd dibyniaeth fawr hefyd ar arbenigedd presennol arbenigwyr diogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd amgylcheddol yr oedd angen iddynt ymdrin â'r achosion mwy cymhleth, ochr yn ochr â'u gwaith ehangach i roi cymorth i gymhwyso mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn amryw leoliadau.

1.36 Mae hyfforddiant effeithiol wedi bod yn rhan bwysig o'r gwaith i feithrin capasiti timau olrhain cysylltiadau felly. Yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro bu hyfforddwr olrhain pwrpasol ac mewn rhanbarthau eraill mae'r hyfforddiant wedi bod yn cael ei ddarparu gan aelod presennol o'r tîm olrhain cysylltiadau ochr yn ochr â'i ddyletswyddau olrhain presennol.

1.37 Mae'n bwysig nodi, er bod hyfforddi staff olrhain cysylltiadau newydd yn amlwg yn bwysig, y bydd pob tîm lleol a rhanbarthol wedi bod yn gweithio o fewn fframwaith gweithredu a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a ysgrifennodd y 'sgriptiau' ar gyfer timau olrhain cysylltiadau hefyd.

7 Staff cyfwerth ag amser llawn.

1.38 Un o'r nodweddion cadarnhaol ar y ffordd y mae olrhain cysylltiadau wedi bod yn gweithredu yng Nghymru yw'r cysyniad o 'gyd-gymorth' lle mae gwaith baich achosion wedi cael ei rannu rhwng rhanbarthau os yw un rhanbarth wedi bod yn profi pwysau penodol oherwydd codiadau cyflym mewn achosion positif. Fe chwaraeodd y cyd-gymorth hwn ran yn y broses o reoli'r achos cynnar ar Ynys Môn ac yn fwy diweddar pan gododd nifer yr achosion yn gyflym yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu tîm 'ymchwydd' Cymru gyfan sydd, ynghyd â threfniadau cyd-gymorth, wedi bod yn cael ei ddefnyddio i reoli brigau a chafnau yn y galw am weithgarwch olrhain. Mae hefyd wedi bod yn cynnal adolygiad effeithlonrwydd o olrhain ledled Cymru i sicrhau'r perfformiad gorau.

1.39 Ym mhob rhanbarth bu tîm olrhain cysylltiadau canolog hefyd sy'n cynnwys staff arbenigol o bartneriaid yn y GIG ac mewn awdurdodau lleol i helpu i ymdrin â'r materion mwy cymhleth megis olrhain cysylltiadau mewn cartrefi gofal ac ysbytai. Mae gwaith olrhain cysylltiadau manylach i ddeall yr union ffynhonnell trosglwyddo wedi digwydd hefyd fel yr oedd capasiti'n caniatáu. Roedd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol ail-lunio gwaith diogelu'r cyhoedd, y cohort ehangach o swyddogion iechyd yr amgylchedd a thimau iechyd a diogelwch awdurdodau lleol i weithio gyda busnesau a chymunedau y canfuwyd eu bod yn agos at darddiad yr achos, a chymhwyso hysbysiadau gorfodi lle'r oedd yn berthnasol.

1.40 Mae'r gweithlu olrhain yng Nghymru wedi cynyddu'n gyflym, ond yn ystod mis Rhagfyr, bu'r timau olrhain yn ei chael yn anodd ateb y galw o ganlyniad i'r ymchwydd mewn cyfraddau heintio. I ateb y galw, roedd rhai timau'n blaenoriaethu achosion i'w holrhain dros dro ac yn gofyn i bobl a oedd wedi cael prawf positif siarad gyda chysylltiadau agos eu hunain.

1.41 Ers 9 Mehefin, mae'r holl dimau olrhain wedi bod yn defnyddio'r un system wybodaeth Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ddigidol. Fe wnaeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru gaffael y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a negodi contract trwyddedu meddalwedd lle gallai nifer y defnyddwyr gael ei gynyddu neu ei leihau yn ôl yr anghenion, a fu o gymorth i reoli costau. Mae'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn cysylltu â system rheoli gwybodaeth labordy Cymru ac yn diweddaru bob 30 munud ag achosion positif newydd. Mae'r system yn dyrannu achosion positif i'r tîm olrhain lle maent yn byw. Wedyn mae timau olrhain yn cofnodi gwybodaeth am achosion positif a'u cysylltiadau yn y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Gall gwybodaeth gael ei hechdynnu o'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid i bwyso a mesur pa mor dda y mae olrhain cysylltiadau'n perfformio ac i ddeall ymlediad y feirws.

1.42 Mae timau olrhain cysylltiadau wedi dod ar draws rhai heriau ymarferol ers lansiad y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Er enghraifft, dywedodd un rhanbarth fod ymarferoldeb y system wedi arwain at 'restrau cysgodol' ar y system lle'r oedd rhai achosion positif yn cael eu cofnodi ar y system ond heb iddynt fod yn weladwy yn y ciw olrhain. Fodd bynnag, gall y mathau hyn o faterion gael eu datrys yn gyflym. Mae rhai pryderon wedi parhau, serch hynny, ynghylch dibynadwyedd y system teleffoni sy'n ategu galwadau o'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu bod olrheinwyr cysylltiadau, er enghraifft, ym methu â gwneud galwadau pan fod angen oherwydd materion cysylltedd.

1.43 Mae rhai timau olrhain hefyd wedi dweud bod swp-brosesu canlyniadau labordai a lanlwytho achosion positif i'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn ddiweddarach wedi creu brig o achosion i gymryd camau dilynol mewn perthynas â hwy. Er bod hyn i'w ddisgwyl, roedd y lanlwythiadau yn enwedig ar ddiwedd y dydd yn ei gwneud yn anodd i dimau olrhain gyrraedd targedau amseroldeb, gan na fyddai camau dilynol wedi cael eu cymryd mewn perthynas â llawer o achosion tan y diwrnod gwaith nesaf.

1.44 Mae ansawdd yr wybodaeth sy'n dod o'r system wedi dibynnu ar gywirdeb yr wybodaeth a roddir i mewn gan dimau olrhain cysylltiadau. Mae hefyd wedi dibynnu ar fod â dadansoddwyr data medrus i echdynnu'r wybodaeth a'i defnyddio mewn ffyrdd ystyrlon, ond ar adeg ein hadolygiad roedd diffyg capasiti dadansoddwyr data gan rai rhanbarthau.

1.45 Bu heriau ymarferol eraill y mae timau olrhain cysylltiadau wedi dod ar eu traws wrth i'r pandemig fynd rhagddo. Bu achosion mewn lleoliadau gwaith masnachol lle nad oedd llawer o gyflogeion yn siarad Saesneg. Bu achosion hefyd o gofnodi manylion cyswllt yn anghywir naill ai'n fwriadol neu am bod y systemau ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn gyntefig (h.y. manylion wedi'u cofnodi mewn llawysgrifen a hynny'n creu problemau cysylltiedig gyda darllenadwyedd).

1.46 Fe weithiwyd drwy'r heriau hyn i gyd gyda gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu fel rhan o werthuso'r rhaglen POD yn barhaus. Fe weithiwyd drwy'r heriau hyn yn gyflym hefyd, gyda hynny'n adlewyrchu gallu'r gwasanaeth i ymateb i faterion a, lle y bo'n berthnasol, gwneud newidiadau i brosesu gweithio neu bolisïau, a hynny'n gyflym.

## Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi pobl y mae angen iddynt hunanynysu?

1.47 Er gwaethaf y newyddion cadarnhaol yn ddiweddar am ddatblygu a chyflwyno brechlynnau, mae Cymru'n dal i'w chael ei hun mewn sefyllfa lle mae achosion o COVID-19 yn cylchredeg yn eang. Mae felly'n gwbl hanfodol bod pobl yn hunanynysu os ydynt wedi cael prawf positif ar gyfer y feirws, neu os ydynt yn un o gysylltiadau rhywun sydd wedi cael prawf positif.

1.48 Fodd bynnag, i nifer o bobl mae hunanynysu wedi dwyn heriau niferus yn ymarferol, yn ariannol ac o ran eu llesiant. Bu a wnelo'r elfen 'ddiogelu' o POD â rhoi'r cymorth a'r wybodaeth angenrheidiol i'r rhai y mae angen iddynt hunanynysu.

1.49 Er bod y Cynlluniau Atal ac Ymateb[8] cychwynnol ar lefel ranbarthol yn brin o fanylion ynglŷn â'r hyn a fyddai'n cael ei wneud i gynorthwyo pobl i hunanynysu, mae ein gwaith wedi canfod bod nifer o fentrau wedi bod yn eu lle i roi cymorth o'r fath. Yn nodweddiadol, mentrau cydweithredol ar lefel ranbarthol a lleol fu'r rhain, a oedd yn cynnwys cyrff o'r sector cyhoeddus ac amryw asiantaethau o'r sector gwirfoddol, a hwythau'n aml yn cael eu cefnogi gan wirfoddolwyr cymunedol. Mae'r gwasanaethau hyn wedi ceisio rhoi cymorth ymarferol megis siopa am fwyd, casglu meddyginiaethau a chymorth ehangach i'r rhai a oedd mewn perygl unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Mae gwaith wedi cael ei wneud hefyd i roi cymorth i grwpiau penodol yn y boblogaeth megis myfyrwyr prifysgol a thwristiaid yn teithio i mewn i Gymru yn ystod cyfnodau pan gaiff cyfyngiadau symud eu codi fel eu bod yn ymwybodol o fesurau lleol sydd mewn grym a ble i fynd i gael cymorth.

1.50 Mewn ymateb i'r her ariannol sy'n gysylltiedig â hunanynysu, o 1 Tachwedd, mae pobl ar incwm isel yng Nghymru hefyd wedi gallu ymgeisio am daliad o £500 os ydynt wedi cael prawf COVID-19 positif neu gyfarwyddyd i hunanynysu. Mae cynllun tebyg wedi bod ar gael i weithwyr cymdeithasol fel taliad atodol ar ben eu tâl salwch statudol. Mae taliadau hunanynysu wedi cael eu hymestyn yn ddiweddar i rai rhieni a gofalwyr ar incwm isel sydd wedi gorfod gofalu am blant sy'n hunanynysu. Cafodd awdurdodau lleol ychydig o dan 20,000 o geisiadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr 2021 gydag oddeutu 50% o'r rheiny'n gymwys i gael taliad. Roedd y cynllun yn cael ei adolygu ar ddiwedd mis Ionawr, ond roedd cydnabyddiaeth glir bod angen o hyd am gymorth ariannol ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen yn ariannol i'w galluogi i gydymffurfio â gofynion hunanynysu.

8 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, a'u partneriaid gyflwyno'r cynlluniau a oedd yn nodi sut y byddent yn cyfyngu ar ymlediad y feirws yn eu rhanbarth.

1.51 Mae'r brigau o ran trosglwyddo'r feirws yn y gymuned sydd wedi dilyn cyfnodau o gyfyngiadau symud yn codi'r cwestiwn i ba raddau y mae'r cyhoedd wedi bod yn barod i ymlynu wrth y canllawiau ynghylch yr angen i gadw pellter cymdeithasol. Mae cyhoeddiad wythnosol Iechyd Cyhoeddus Cymru '**Sut rydym yn gwneud yng Nghymru'** yn darparu crynodeb da o sut y mae pobl yn y gymuned yn teimlo, eu barn am bolisi, ac i ba raddau y maent yn deall ac yn dilyn canllawiau a deddfwriaeth COVID-19. Dangosodd yr arolwg hwn fod cydymffurfiaeth â chyfyngiadau Llywodraeth Cymru yn gostwng ymhlith ymatebwyr. Nid yw'n glir i ba raddau y mae methiant i gydymffurfio â gofynion hunanynysu sy'n gysylltiedig ag olrhain cysylltiadau wedi cyfrannu at godiadau mewn cyfraddau trosglwyddo yn y gymuned. Hyd yma, cyfyngedig yw'r wybodaeth sy'n bodoli i ddeall graddfa unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion hunanynysu neu yn wir y rhesymau dros hynny. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cynnal dau ddarn o waith ymchwil i ddeall a yw pobl yn hunanynysu ar ôl i olrheinwyr gysylltu â hwy.

1.52 Byddai gwybodaeth fwy eglur am lefel yr angen am wasanaethau 'diogelu' a pha mor dda y mae gwasanaethau presennol wedi bod yn diwallu'r angen hwnnw o gymorth i adnabod a thargedu adnoddau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Serch hynny, ceir gwybodaeth dda erbyn hyn am yr ystod o wasanaethau cymorth sydd wedi cael eu cyflwyno ledled Cymru, yn aml trwy weithio mewn partneriaeth. Ar 16 Rhagfyr, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r **cymorth i bobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod**. Yn ogystal â nodi gweithgarwch cymorth, fe wnaeth yr adroddiad hefyd nodi gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau lleol ar ganllawiau gwarchod, cymorth gydag iechyd meddwl, mwy o gymorth ar gyfer cynhwysiant digidol, a manteision hirdymor cynnal y momentwm sydd wedi cynyddu mewn perthynas â gwirfoddoli. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg ychwanegol o dimau diogelu awdurdodau lleol ac mae wedi sefydlu grŵp 'Arweinwyr Diogelu'. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddeall natur ceisiadau diogelu sy'n codi, gwella'r amrywiaeth o gymorth a roddir a rhannu arfer a gwersi a ddysgwyd.

1.53 Wrth i'r rhaglen POD ddatblygu mewn ymateb i'r pandemig, mae trefniadau goruchwylio cenedlaethol wedi tueddu i ganolbwyntio'n fwy cryf ar yr elfennau profi ac olrhain o'r rhaglen. Bu llai o oruchwyliaeth genedlaethol ar yr hyn y mae ei angen o ran cymorth i bobl hunanynysu a diffyg gwybodaeth i wybod a yw'r gwasanaethau hynny'n dylanwadu'n effeithiol ar ymddygiad y cyhoedd.

1.54 Bydd hunanynysu ar gyfer pobl sy’n cael prawf positif, a’u cysylltiadau agos, yn parhau i fod yn elfen allweddol o’r dull o atal ymlediad y feirws tra bo rhaglenni brechu’n cael eu cyflwyno yn ystod 2021. Felly bydd sicrhau bod yr elfen ‘ddiogelu’ o POD yn cael y sylw y mae ei angen arni’n hollbwysig er mwyn i’r rhaglen ein helpu i gael rheolaeth ar y feirws yn y pen draw.

1.55 Mae arfer da i adeiladu arno a’i fabwysiadu’n fwy eang, megis y llinell gymorth hunanynysu a lansiwyd yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ym mis Tachwedd 2020. Menter mewn partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd, awdurdodau lleol yn yr ardal, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a’r sector gwirfoddol yw’r llinell gymorth. Mae’n rhoi help a chyngor i bobl y gofynnir iddynt hunanynysu ac fe’i sefydlwyd yn dilyn dadansoddi cudd-wybodaeth o’r rhaglen POD ranbarthol a ddangosodd fod dryswch sylweddol ynghylch hunanynysu a pha gymorth oedd ar gael, gan arwain at ddiffyg cydymffurfio â mesurau i reoli ymlediad COVID-19.

1.56 Mae gweithgareddau pwysig eraill ar y gweill megis y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddatblygu fframwaith monitro sy’n cynnal trosolwg fwy eglur ar anghenion cymorth pobl y mae gofyn iddynt hunanynysu. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i wella’r wybodaeth a gofnodir yn y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid am bobl y mae angen cymorth arnynt i hunanynysu.

# Edrych ymlaen: heriau a chyfleoedd allweddol

02

## Bod â gwybodaeth well i wella effeithlonrwydd a gwerthuso effaith POD

2.1 Bydd y perfformiad mewn un rhan o’r system POD yn pennu pa mor effeithiol yw rhannau eraill o’r system. Er enghraifft, mae amseroedd prosesu cyflym ar gyfer profi’n angenrheidiol er mwyn i’r gweithgarwch olrhain cysylltiadau fod yn effeithiol. Yn yr un modd, bydd gallu timau olrhain cysylltiadau i gyrraedd y bobl gywir yn gyflym yn helpu i adnabod y rhai y mae angen iddynt hunanynysu cyn eu bod yn lledaenu’r feirws ymhellach. Er bod gwybodaeth am ba mor dda y mae gwahanol rannau o’r rhaglen POD wedi bod yn gweithio, ni fu gwybodaeth am berfformiad sy’n edrych ar y rhaglen gyfan, o’r adeg y mae rhywun yn gofyn am brawf i’r adeg pan gaiff eu cysylltiadau eu holrhain, i ddangos pa mor gyflym y mae’n adnabod ac yn ynysu pobl sydd wedi’u heintio. Gallai gwybodaeth o’r fath fod yn erfyn grymus i helpu i wybod beth mae ei angen i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y rhaglen ar y cyfan.

## Sicrhau bod gweithgareddau profi’n addas ar gyfer y diben ac yn ateb y galw cynyddol

2.2 Er gwaethaf rhai o’r heriau a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae trefniadau profi ac olrhain wedi ymateb yn weddol dda i’r heriau a achosir gan y feirws. Fodd bynnag, bydd angen i gapasiti profi ac olrhain barhau i ymateb i’r galw yn 2021. Mae angen i brofion fod yn hawdd cael mynediad atynt a rhaid i ganlyniadau gael eu dychwelyd yn gyflym i helpu i reoli ymlediad y feirws. Ceir risg sylweddol hefyd, os ydynt yn meddwl ei bod yn anodd cael prawf, neu ganlyniadau cyflym, y bydd pobl yn peidio â thrafferthu cael eu profi.

2.3 Fel a amlygwyd ym **mharagraff 1.25**, ar adeg ein hadolygiad, roedd Llywodraeth Cymru wedi dechrau defnyddio technolegau profi newydd megis dyfeisiau llif unffordd a’r prawf Lumira DX. Mae’r profion yn darparu canlyniadau cyflym a gallant gefnogi rhaglenni ar raddfa fawr i brofi poblogaethau asymptomatig neu sgrinio staff iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth i’r galw am y profion cyflym hyn gynyddu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, bydd angen i Lywodraeth Cymru feddwl yn glir pa sectorau fydd yn cael blaenoriaeth fel rhan o’u cyflwyno, gan ystyried y cyfyngiadau hysbys gyda chywirdeb y profion hyn.

2.4 Mae trefniadau profi mewn ysbytai hefyd yn faes y mae angen rhoi peth ystyriaeth iddo. Er bod profi mewn ysbytai wedi gwella ers y brig cyntaf, yn nodweddiadol dim ond ar adeg eu derbyn y mae cleifion mewn ysbytai'n cael eu profi oni bai eu bod yn datblygu symptomau. I leihau ymlediad y feirws i'r eithaf o gleifion a all fod wedi cael prawf negatif ar adeg eu derbyn i'r ysbyty ond sydd wedyn yn mynd ymlaen i ddatblygu symptomau, mae cyfleoedd i ehangu mynychder profi mewn ysbytai yn ogystal â sicrhau bod cyfundrefnau rheoli heintiau mor effeithiol ag y gallant fod.

## Creu gweithlu medrus, cydnerth i gyflawni POD yn ystod 2021

2.5 Fel gyda rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, mae llawer o staff sy'n rhan o oruchwylio a chyflawni POD wedi bod dan bwysau sylweddol am fisoedd lawer. Clywsom fod llawer o staff wedi bod yn gweithio oriau hir gyda chyfleoedd cyfyngedig i gymryd gwyliau. Mae sefydliadau wedi rhoi rhai mesurau ar waith i sicrhau cydnerthedd gan gynnwys recriwtio neu adleoli staff ychwanegol, ailddyrannu gwaith, a sefydlu rotas ar benwythnosau. Ond mae pwysau sylweddol ar lawer o staff o hyd, gan gynnwys y rhai mewn rolau arwain ac arbenigol. Mae cyrff cyhoeddus hefyd yn rheoli galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd ar eu gweithlu sy'n gysylltiedig ag effaith ehangach y pandemig, y rhaglen brechu rhag COVID-19, a chanlyniadau parhaus Brexit[9]. Ni waeth pa mor gyflym y gellir brechu'r cyhoedd rhag COVID-19, mae'n dybiaeth resymol y bydd angen gwasanaethau POD o leiaf tan ganol eleni a mwy na thebyg am yn hwy na hynny. Dim ond tan 31 Mawrth y mae llawer o staff newydd wedi cael eu recriwtio, er mwyn i hynny fod yn gyson ag argaeledd cyllid ar hyn o bryd. Mae'n bwysig bod ymrwymiad i ariannu gwasanaethau i mewn i 2021-22 yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl i alluogi staff i gael eu cadw a'r gweithlu i barhau i fod yn sefydlog.

2.6 Mae rhai aelodau o staff, gan gynnwys swyddogion sy'n arwain POD, wedi cael eu hadleoli ac wedi addasu'n gyflym ac yn llwyddiannus i rolau newydd y tu allan i'w maes arbenigedd blaenorol. Efallai y bydd cyfleoedd i symud mwy o staff o feysydd eraill i gefnogi POD. Ceir nifer o rolau y mae'n anodd recriwtio iddynt ac mae arbenigwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mewn rhai timau rhanbarthol yn ystyried sut y gallant gynyddu sgiliau cydweithwyr i gyflawni gwaith nad yw'n arbenigol. Mae cyfleoedd i fwrw golwg ehangach i weld pa dasgau sy'n gallu cael eu cyflawni gan arbenigwyr diogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd yn unig, a pha rai all gael eu cyflawni gan swyddogion eraill. Gallai fod cyfleoedd hefyd i leihau presenoldeb arbenigol mewn cyfarfodydd trwy ddarparu canllawiau y tu allan i gyfarfodydd neu adnabod meysydd lle mae cymorth nad yw'n arbenigol yn 'ddigon da'.

9 **Mae ein llythyr ar baratoadau ar gyfer diwedd Brexit** yn disgrifio rhai o'r pwysau ar y gweithlu sy'n gysylltiedig â Brexit.

## Dylanwadu ar y cyhoedd i ddilyn canllawiau a gofynion diogelu iechyd y cyhoedd

2.7 Mae'n hollbwysig bod pobl sy'n cael prawf positif neu gyfarwyddyd i hunanynysu gan wasanaethau POD yn dilyn y rheolau i osgoi heintio unrhyw un arall. Canfuom enghreifftiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ddulliau o ddylanwadu ar ymddygiad y cyhoedd. Ond heb wybodaeth i ddynodi pa un a yw pobl yn hunanynysu ai peidio mae wedi bod yn anodd barnu llwyddiant yr agwedd hon ar POD. Hyd yn oed os yw'n effeithiol, dim ond rhan o'r ymateb i gyfyngu ar ymlediad COVID-19 yw POD. Er mis Ebrill, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i brofi sampl[10] o bobl sy'n byw yn y DU i ddeall mwy am COVID-19. Ym mis Hydref, dangosodd yr **arolwg** mai dim ond 34% o'r bobl a oedd wedi cael prawf COVID-19 positif ddywedodd eu bod wedi profi unrhyw symptomau. Byddai'r canlyniadau hyn yn awgrymu na fyddai nifer sylweddol o bobl â'r feirws yn mynd trwy POD o gwbl. Mae'n hanfodol felly bod y boblogaeth yn deall mesurau ehangach i atal yr haint ac yn cydymffurfio â hwy.

2.8 Dywedodd llawer o'r gweithwyr proffesiynol y siaradom ni gyda hwy fod dylanwadu ar ymddygiad y cyhoedd wedi bod yn her enfawr, yn enwedig wrth i'r cyhoedd flino ar y pandemig a'r cyfyngiadau ar eu bywydau pob dydd. Clywsom hefyd fod y cyhoedd wedi cael eu drysu gan reolau a oedd yn newid, yn enwedig pan oedd y rheolau'n wahanol ar draws gwledydd y DU. Dengys cudd-wybodaeth leol fod pobl nad ydynt yn dilyn y rheolau'n perthyn i amryw grwpiau oedran a'u bod o gefndiroedd amrywiol, mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio dylanwadu ar ymddygiad y cyhoedd mewn amryw ffyrdd, ond mae sicrhau bod pobl yn gwneud y peth iawn yn dal i fod yn her sylweddol. Ceir risg bellach, unwaith y byddant wedi cael eu brechiad rhag COVID-19, y bydd pobl yn meddwl bod llai o angen i gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol a mesurau eraill i reoli ymlediad y feirws.

10 O fis Hydref 150,000 o bobl oedd maint y sampl.

## Cymhwyso'r gwersi o'r rhaglen POD i raglenni eraill a ffyrdd o weithio yn y dyfodol

2.9 Er bod COVID-19 wedi creu heriau digynsail, mae'r pandemig hefyd wedi ysgogi positifrwydd sylweddol o ran y ffordd y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi ymateb. Mae'r rhain yn amlwg drwyddi draw yn y rhaglen POD.

2.10 Mae graddfa a her y pandemig wedi dod â sefydliadau ynghyd gyda nod cyffredin, sef cyfyngu ar ymlediad y feirws a diogelu poblogaeth Cymru. Dangoswyd partneriaeth wirioneddol gyda sefydliadau'n rhannu sgiliau ac adnoddau i sefydlu timau i gyflawni'r agendau POD, a staff yn cael eu hadleoli ar draws sbectrwm cyfan o weithgareddau ni waeth i ba sefydliad y maent yn gweithio fel arfer. Mae cysyniad cydgymorth rhwng gwahanol sefydliadau a ledled gwahanol rannau o Gymru wedi rhoi cymorth yr oedd ei ddirfawr angen i rannau o'r system a allai fod wedi bod dan bwysau cynyddol ac wedi rhannu'r baich ledled Cymru gyfan, beth bynnag fo'r ffiniau sefydliadol a daearyddol.

2.11 Mae prosesau wedi cael eu rhoi ar waith mewn mater o ddiwrnodau a'r rheiny'n brosesau y byddai, mewn cyfnod arferol, wedi cymryd misoedd neu flynyddoedd i'w rhoi ar waith. Mae rolau newydd wedi cael eu creu hefyd, gyda staff newydd yn cael eu recriwtio, eu rhoi ar waith, a'u hyfforddi o fewn wythnosau. Cafodd datrysiad TG unwaith-i-Gymru unigol ei gaffael, ei ddatblygu, a'i roi ar waith o fewn chwe wythnos, gan alluogi sefydliadau i gysylltu â'i gilydd a darparu un ffynhonnell wybodaeth. Mae'n werth cyferbynnu hyn â'r hyn sy'n nodweddiadol wedi digwydd yn y gorffennol gyda datrysiadau TG yn cymryd blynyddoedd i'w datblygu ac yna'u rhoi ar waith, gyda chyrff y sector cyhoeddus yn aml yn defnyddio fersiynau gwahanol o'r system sy'n ei chael yn anodd cysylltu â'i gilydd.

2.12 Mae'r rhaglen POD wedi dangos yn glir bod gan y gwasanaeth cyhoeddus y gallu i weithio'n dda ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol, ac i weithio'n gyflym i gyflawni pethau. Wrth i'r sylw symud ymlaen at ymatebion gwahanol i'r pandemig, megis y rhaglen gyfredol i gyflwyno brechlynnau, ac yna, yn y pen draw, at adfer ac ailosod gwasanaethau unwaith y bydd y brigau sylweddol yn y pandemig yn dechrau cilio, mae'n bwysig bod y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd o'r rhaglen POD yn cael eu cofnodi a'u defnyddio i lunio'r ffordd y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cydweithio ac yn mynd i'r afael â heriau yn y dyfodol.

# Atodiadau

1 Llwybr dadansoddi samplau a phrofion ar gyfer Cymru (ym mis Rhagfyr 2020)

# 1 Llwybr dadansoddi samplau a phrofion ar gyfer Cymru (ym mis Rhagfyr 2020)

| Pwy all gael y prawf? | I ble yr eir â'r samplau? | Ble mae'r samplau'n cael eu dadansoddi? | |
|---|---|---|---|
| | | Labordai Goleudy | Labordai GIG Cymru |
| Trigolion symptomatig yn y gymuned | Uned profi drwy ffenestr y car ranbarthol | Rhan fwyaf o'r samplau | Rhai samplau |
| Trigolion symptomatig mewn ardaloedd sy'n broblem neu lle ceir achosion o'r haint (gan gynnwys preswylwyr cartrefi gofal) | Uned brofi symudol | Rhan fwyaf o'r samplau | Rhai samplau |
| Trigolion symptomatig yn y gymuned | Uned galw-i-mewn leol | Rhan fwyaf o'r samplau | Rhai samplau |
| Trigolion symptomatig yn y gymuned | Citiau profi gartref | Pob sampl | |
| Preswylwyr a staff symptomatig mewn cartrefi gofal | Prawf cartref gofal o borthol Llywodraeth y DU | Pob sampl | |
| Staff asymptomatig mewn cartrefi gofal yn cael eu profi'n wythnosol | Unedau lloeren | Rhan fwyaf o'r samplau | Rhai samplau |
| Cleifion mewnol mewn ysbytai | Ysbytai | | Pob sampl |
| Cleifion allanol mewn ysbytai | Uned brofi gymunedol | | Pob sampl |
| Gweithwyr allweddol[11] | Uned brofi gymunedol | | Pob sampl |

11 Ceir rhestr o weithwyr allweddol yn **llyw.cymru/gweithwyr-hanfodol-allweddol-y-coronafeirws-cymhwysedd-prawf**. Gall rhai gweithwyr allweddol gael mynediad at y llwybr profi trwy ddod i sylw fel trigolyn symptomatig yn y gymuned.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Audit Wales

24 Cathedral Road

Cardiff

CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales